# Ffeithlen y Barcut Coch

**Bwriad y ffeithlen hon yw darparu'r wybodaeth gefndirol angenrheidiol i athrawon ddefnyddio'r cynlluniau gwersi a'r taflenni gwaith yn hyderus. Ymhlith nifer o wefannau eraill a allai fod yn ddefnyddiol mae Wicipedia, ARKive, BBC Nature, Naturenet, RSPB a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.**

Mae'r rhywogaeth yn nythu mewn coed, yn aml yn agos at farcutiaid eraill. Maent yn adeiladu eu nythod gyda brigau wedi'u leinio â



gwair a gwlân defaid. Fel arfer maent yn paru am oes, er y gallant dreulio peth amser ar wahân dros y gaeaf. Mae carwriaeth ac adeiladu nythod yn dechrau ym mis Mawrth, fel arfer tua 2-4 wythnos cyn dodwy'r wyau cyntaf. Maent yn dodwy 1-3 ŵy ym mis Ebrill, fel arfer yn ysbeidiol tua phob 3 diwrnod. Mae hyn yn esgor ar gyw cryf a fydd yn goroesi'r lleill os bydd bwyd yn brin. Mae'r cyfnod deor yn para tua 32 ddiwrnod gyda'r fenyw yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith.

LBAP species

Ysbeilwyr yw barcutiaid coch, sy'n golygu eu bod mewn perygl arbennig o gael eu gwenwyno. Amcangyfrifwyd bod o leiaf hanner y barcutiaid yng Nghymru'n marw o ganlyniad i'r camddefnydd bwriadol o gemegau amaethyddol - abwyd gwenwynol a fwriedir i ladd cadnoid neu frain.

Dirywiodd poblogaeth fridio'r DU nes bod ond dyrnaid o barau ar ôl yng Nghymru (mae un ffigur yn awgrymu mai dim ond 2 bâr oedd ar ôl yn y 1930au). Mae prosiectau llwyddiannus i ailgyflwyno'r adar ar draws y DU wedi cael canlyniadau cadarnhaol - yn ôl ffigurau diweddar, mae dros 1,000 o barau yn y wlad erbyn hyn (RSPB).  Nododd arolwg diweddar fod 9 pâr yn bridio yng Nghastell-nedd Port Talbot (Gower Birds, GOS, Cyf. 8, Rhif 4, Tachwedd 2006). Cafodd y boblogaeth ei rhwystro rhag ailsefydlu ei hun ac ehangu am gryn amser oherwydd lladron wyau. Gall casglwyr wynebu dirwyon trwm (hyd at £1,000 am bob ŵy).

Yn fras dyma'r prif fygythiadau i farcutiaid coch:

- Gwenwyn plwm (o ganlyniad i fwydo ar gyrff anifeiliaid wedi'u saethu)
- Casglu wyau
- Camddefnyddio gwenwynau

Mae gorsafoedd bwydo barcutiaid coch wedi cael eu sefydlu mewn rhai rhannau o Gymru lle caiff yr adar eu bwydo er mwyn cynnal a chynyddu'r boblogaeth a hefyd creu atyniad i dwristiaid. Mae dros 50 aderyn yn ymweld â Gorsaf Fwydo'r Mynydd Du yn Llanddeusant ym Mannau Brycheiniog tra bod rhwng 200 a 500 o farcutiaid yn ymweld â Gorsaf Fwydo Barcutiaid Coch Fferm Gigrin ger Rhaeadr bob dydd.